

## **MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)**

### **Y Bil Amaethyddiaeth**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu at ddiben sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cafodd y Bil Amaethyddiaeth (y "Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 12 Hydref 2018 ac mae wedi cwblhau'r Cyfnod Pwyllgor ar gyfer Bil Cyhoeddus. Mae'r Memorandwm hwn yn nodi'r diwygiadau perthnasol i'r Bil a wnaed yn ystod y Cyfnod Pwyllgor ac mae'n diweddarau'r sefyllfa mewn perthynas â'r cymal ar Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth (Rhan 7). Mae fersiwn ddiweddaraf y Bil, fel y'i diwygiwyd yn ystod y Cyfnod Pwyllgor, i'w gweld yma:

#### [Dogfennau'r Bil – Y Bil Amaethyddiaeth 2017-19 – Senedd y DU](#)

3. Bydd y Bil yn symud ymlaen bellach i'r Cyfnod Adrodd a'r Trydydd Darlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin cyn mynd i Dŷ'r Arglwyddi.

### **Amcan(ion) Polisi**

4. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan mai ei hamcanion polisi yw darparu, ar gyfer Lloegr, system newydd o dalu "arian cyhoeddus am nwyddau cyhoeddus" i ffermwyr – yn bennaf, y gwaith y maent yn ei wneud i wella ac i ddiogelu'r amgylchedd – a chael gwared yn raddol ar Daliadau Uningyrchol o dan reolau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC).

### **Crynodeb o'r Bil**

5. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.
6. Mae prif ddarpariaethau'r Bil yn darparu'r fframwaith cyfreithiol i'r Deyrnas Unedig (DU) adael y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) ac i sefydlu, yn Lloegr, system newydd a fydd yn seiliedig ar arian cyhoeddus am nwyddau cyhoeddus ar gyfer y genhedlaeth nesaf o ffermwyr a rheolwyr tir.
7. Mae'r Bil hefyd, ar gais Gweinidogion Cymru, yn darparu pwerau ar gyfer Gweinidogion Cymru.

### **Darpariaethau atodol yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer**

8. Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Amaethyddiaeth (fel y'i cyflwynwyd ar 12 Medi 2018) ar 4 Hydref. Nodwyd yn y Memorandwm hwnnw bod dau fater yn peri pryder inni, sef Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth a'r Ardoll Cig Coch, ac nad oeddent wedi cael eu datrys mewn ffordd a oedd yn ein bodloni. Nodwyd hefyd y byddai gwaith yn parhau i ddatrys y pryderon hynny wrth i'r Bil fynd ar ei daith drwy Senedd y DU. Ers i'r Memorandwm cyntaf gael ei gyhoeddi, mae'r Bil wedi cael ei ddiwygio wrth i Dŷ'r Cyffredin graffu arno, ac rydym wedi sicrhau cytundeb gyda Llywodraeth y DU ar y ddau fater yr oedd anghytundeb yn eu cylch.
  
9. Mae'r Memorandwm Atodol hwn yn ymdrin â'r newidiadau hynny a wnaed i'r Bil yn ystod cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin y mae angen cydsyniad y Cynulliad ar eu cyfer. Mae hefyd yn esbonio'r cytundeb a sicrhawyd gyda Llywodraeth y DU ar sut y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn arfer y pwerau sy'n gysylltiedig â Rhan 7 (Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth) fel y bo buddiannau pob rhan o'r DU yn cael eu hystyried yn llawn. Mae'r diwygiadau a wnaed a'r cytundeb a sicrhawyd yn mynd i'r afael â'r ddau fater y mynegwyd pryder yn eu cylch ym mharagraff 23 o'n Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y gallai rhagor o newidiadau gael eu gwneud i'r Bil yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ac wrth iddo fynd ar ei daith drwy Dŷ'r Arglwyddi. Rhaid ystyried y Memorandwm cyntaf a'r Memorandwm Atodol gyda'i gilydd (ynghyd ag unrhyw Femoranda Atodol pellach a allai gael eu gosod gerbron y Cynulliad mewn perthynas ag unrhyw ddiwygiadau a gaiff eu gwneud yn y dyfodol) wrth benderfynu a ddylid rhoi cydsyniad ai peidio.
  
10. Mae'r darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer i'w gweld yn Rhan 7 (Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth); Rhan 8 (Yr Ardoll Cig Coch); Atodlen 3 (Darpariaethau o ran Cymru), a Rhan 10 o'r Bil (Y Darpariaethau Terfynol). Mae rhifau'r cymalau a ddefnyddir isod yn cyfeirio at y fersiwn o'r Bil y gorchynnwyd ei argraffu ar 20 Tachwedd ac a gyhoeddwyd ar 21 Tachwedd (y fersiwn fel y'i diwygiwyd yn ystod y Cyfnod Pwyllgor).

### **Rhan 7: Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth**

11. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig yn ei datganiad ar 12 Medi fod Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn oherwydd y berthynas gryf ac amlwg rhwng pwerau Sefydliad Masnach y Byd a chyfrifoldebau datganoledig dros gymorth ym maes amaethyddiaeth. Roedd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 4 Hydref hefyd yn esbonio safbwynt Llywodraeth Cymru "bod angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau cymal 26 [y cymal ar Sefydliad Masnach y Byd, sef cymal 28 erbyn hyn] oherwydd eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan eu bod yn ymwneud ag amaethyddiaeth ac ufuddhau i rwymedigaethau rhyngwladol a gweithredu'r rhwymedigaethau hynny, sef y Cytundeb ar Amaethyddiaeth".

Mae Llywodraeth y DU, fodd bynnag, o'r farn bod y pwerau hyn yn rhai a gadwyd yn ôl, ar y sail eu bod yn ymwneud â masnach ryngwladol.

12. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi cytuno ar ffordd o lywodraethu defnydd o'r pwerau hyn fel y bo buddiannau pob rhan o'r DU yn cael eu hystyried yn llawn. Rydym wedi cytuno fel a ganlyn:
- bydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig, gan ddilyn yr egwyddorion a nodir yn y Cytundeb Rhynglywodraethol, cyn cyflwyno rheoliadau o dan y cymal ar Sefydliad Masnach y Byd;
  - bydd Gweinidogion yn ceisio symud yn eu blaen drwy gytundeb ond os ceir anghytundeb, bydd deunydd perthnasol ar gael i ddau Dŷ'r Senedd ei weld cyn i Senedd u DU bleidleisio ar y rheoliadau;
  - Gweinidogion Cymru fydd yn gyfrifol yn y lle cyntaf am gynnig categoreiddio cynlluniau cymorth amaethyddol Cymru, gan wneud hynny mewn ffordd a fydd yn gyson ag unrhyw reoliadau a wneir o dan y cymal ar Sefydliad Masnach y Byd; a
  - bydd rôl i gynghorydd annibynnol fel arfer os bydd y llywodraethau'n anghytuno ar gategorïau'r cynlluniau neu ar faterion perthnasol eraill. Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol roi ystyriaeth i'r cyngor hwn cyn gwneud unrhyw benderfyniad a rhaid iddo rannu'r cyngor, y penderfyniad a'r rheswm dros y penderfyniad â'r gweinyddiaethau datganoledig.
13. Yn gryno, felly, mae cyfrifoldeb clir i geisio cytundeb. Fodd bynnag, os na fydd hynny'n bosibl, mae trefniadau cryf sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru fynegi barn. Caiff y trefniadau hynny eu rhoi ar bapur mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn dweud hynny ar goedd mewn datganiad ar lawr Tŷ'r Cyffredin. Mae hwn yn ganlyniad da sy'n rhoi rôl gref a hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ac fe'i sicrhawyd ar ôl llawer o gydweithio effeithiol rhwng y llywodraethau. Mae'n fodel gwerthfawr y gellid ei ddefnyddio mewn meysydd eraill lle mae angen i lywodraethau gydweithredu ac mae'n arwydd o ymrwymiad y ddwy lywodraeth i gydweithio.

### **Rhan 8: Yr Ardoll Cig Coch**

14. Mae byrddau ardollau cig coch Prydain Fawr (Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, Quality Meat Scotland, a Hybu Cig Cymru) i byd yn gosod ardollau cig coch ar wahân ar gynhyrchwyr a phroseswyr cig coch yn Lloegr, yr Alban a Chymru, yn y drefn honno. Yr unig reswm y ceir gosod yr ardollau hynny yw er mwyn i bob un o'r cyrff hyn fedru cwrdd â'u costau wrth iddynt gefnogi'r diwydiant cig coch yn y wlad lle y codir yr ardoll. Mae ardollau, felly, yn seiliedig ar leoliad daearyddol lladd-dai, yn hytrach nag ar y man o le y daw'r da byw, ac nid ydynt yn rhoi ystyriaeth i'r patrymau masnachu ar draws ffiniau Prydain Fawr. O'r herwydd, mae'n bosibl y bydd yr ardoll a delir gan gynhyrchwyr sy'n gweithredu mewn un ran o Brydain yn cael

ei ddefnyddio i ariannu gweithgareddau hyrwyddo a datblygu mewn rhan arall ohoni.

15. Mae cymal 29 newydd (Yr Ardoll Cig Coch: taliadau rhwng cyrff ardollau ym Mhrydain Fawr), yn galluogi Gweinidogion i sefydlu cynllun sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyrddau amaethyddol ym Mhrydain Fawr aildosbarthu'r ardoll rhwng ei gilydd. Bwriedir i hynny alluogi'r rheini sy'n buddsoddi mewn bridio a magu da byw i elwa ar yr ardoll a gesglir mewn perthynas â'u da byw nhw, hyd yn oed os bydd yr ardoll yn cael ei gasglu gan lladd-dy sydd mewn awdurdodaeth arall. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y cymal newydd yn ffordd briodol o ddatrys y mater.

### **Atodlen 3, Rhan 2: Cymorth Ariannol ar ôl ymadael â'r UE**

16. Mae Rhan 2 o Atodlen 3 i'r Bil yn gwneud darpariaeth ynglŷn â phwerau Gweinidogion Cymru i addasu, ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, gyfraith yr UE a ddargedwir mewn perthynas ag ariannu, rheoli a monitro taliadau i ffermwyr. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ynglŷn â chyfnod pontio amaethyddol i Gymru y gellir ei estyn drwy gyfrwng rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.
17. Mae paragraff 7 newydd (Pŵer i leihau'r terfynau uchaf ar gyfer taliadau uniongyrchol hyd at 15% yng Nghymru yn 2020) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i leihau'r terfyn uchaf ar gyfer taliadau uniongyrchol hyd at 15% yng Nghymru yn 2020). Bydd y pŵer hwnnw'n golygu y bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cadw taliadau uniongyrchol yn 2020 ar yr un lefel ag yn 2019. Ni ellir arfer y pŵer ar ôl diwedd 2020. Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn dod o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol (fel y'i diffinnir gan gymal 32(7)(b)).
18. Mae paragraff 8 newydd (Pŵer i barhau â chynllun y taliad sylfaenol ar ôl 2020) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i barhau â chynllun y taliad sylfaenol ar ôl 2020, yn ystod y cyfnod pontio amaethyddol ar gyfer Cymru. Mae hwn yn cynnwys pŵer i ragnodi drwy reoliadau y dull a fydd yn cael ei ddefnyddio ar ôl 2020 i benderfynu ar derfynau uchaf taliadau uniongyrchol. Mae'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol (1307/2013) yn cynnwys terfynau uchaf (y dulliau ar gyfer cyfrifo taliadau i ffermwyr) hyd at ddiwedd blwyddyn gynllun 2020 yn unig. Heb derfynau uchaf na ffordd arall o benderfynu ar swm, ni allai cynllun y taliad sylfaenol barhau. Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn dod o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol (fel y'i diffinnir gan gymal 32(7)(b)).
19. Mae paragraff 9 (Pŵer i ddarparu ar gyfer dileu'n raddol daliadau uniongyrchol a thaliadau datgysylltiedig), yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn:
  - a) Diwygir is-paragraff (1)(b) fel nad oes gofyniad bellach i ddod â thaliadau uniongyrchol i ben. Diwygiad technegol yw hwn mewn perthynas â pwerau Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth drwy gyfrwng rheoliadau ar gyfer taliadau datgysylltiedig yn lle taliadau o dan gynllun y taliad sylfaenol. Mae'r diwygiad yn ei gwneud yn glir hefyd na ellir gwneud taliadau

datgysylltiedig ar yr un pryd â thaliadau uniongyrchol o dan gynllun y taliad sylfaenol.

- b) Diwygir is-baragraff (8) er mwyn cywiro camgymeriad drafftio. Cynhwysir testun i egluro bod paragraff 9(8) yn gymwys os gwneir darpariaeth o dan baragraff 6(2) ar gyfer dod â thaliadau gwyrddu i ben naill ai cyn neu ar ôl dechrau'r cyfnod pontio amaethyddol i Gymru. Mae'r diwygiad yn golygu bod y darpariaeth ar gyfer Cymru yr un peth â'r un ar gyfer Lloegr.

### **Atodlen 3, Rhan 4: Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol**

20. Mae Rhan 4 o Atodlen 3 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddatgan cyfnod o amodau eithriadol yn y farchnad, ac, yn ystod y cyfnod y mae'r datganiad yn cael effaith, i roi cymorth ariannol, neu i gytuno i roi cymorth ariannol, i gefnogi cynhyrchwyr amaethyddol yng Nghymru y mae'r amodau eithriadol yn y farchnad a ddisgrifir yn y datganiad yn cael effaith andwyol ar eu hincymau, neu'n debygol o gael effaith o'r fath. Mae Rhan 4 hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddefnyddio mewn unrhyw ffordd yr ystyriant yn briodol unrhyw bwerau sydd ar gael o dan ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n darparu ar gyfer gweithredu ymyrraeth gyhoeddus a chymorth ar gyfer systemau storio preifat mewn ymateb i'r datganiad.

21. Diwygir paragraff 18 (Datganiad ynglŷn ag amodau eithriadol yn y farchnad), fel a ganlyn:

- a) Diwygir is-baragraff (2) er mwyn egluro mai bwriad y ddarpariaeth yw nodi'r unig amgylchiadau pryd y caiff Gweinidogion Cymru wneud datganiad yn dweud bod amodau eithriadol yn y farchnad. Mae'r diwygiad yn golygu bod y darpariaeth ar gyfer Cymru yr un peth â'r un ar gyfer Lloegr.
- b) Diwygir is-baragraff (3)(c) i adlewyrchu camgymeriad drafftio. Dylai'r testun yn y Bil fod wedi cyfeirio at "conditions" (yn hytrach na "decisions").

### **Rhan 10: Darpariaethau Terfynol**

22. Mae Rhan 10 o'r Bil yn darparu ar gyfer mathau gwahanol o ddarpariaethau ategol y gellid eu gwneud mewn rheoliadau a wneir o dan y Bil.

23. Diwygir cymal 32 (Rheoliadau) fel y bo is-gymal (5) newydd yn darparu y bydd rheoliadau o dan adran 32(3)(c) sy'n gwneud darpariaeth atodol, cysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol neu arbed yn addasu deddfwriaeth sylfaenol, yn dod o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Mae hyn yn gwella'r gwaith craffu a wneir ar deddfwriaeth pan fo rheoliadau a wneir o dan adran 32(3)(c) yn addasu deddfwriaeth sylfaenol. Mewn osodir cyfeiriadau at gymal 32(5) i'r darpariaethau ar gyfer gwneud rheoliadau gan ddefnyddio'r weithdrefn penderfyniad negyddol ym mharagraffau 6(3), 11(5), 12(4), 20(3) a 22(3) o Atodlen 3, i'r perwyl y dylid defnyddio'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn lle'r un negyddol os defnyddir y pŵer perthnasol, yn rhinwedd adran 32(3)(c), i

wneud darpariaeth atodol, cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol neu arbed sy'n addasu deddfwriaeth sylfaenol.

24. Diwygir cymal 33 (Dehongli) i egluro bod y diffiniad o “subordinate legislation” yn cynnwys deddfwriaeth a wneir o dan deddfwriaeth sylfaenol gan y deddfwrfeydd datganoledig.

### **Cydsyniad**

25. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth (Rhan 7) oherwydd eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel y mae'n ymwneud ag amaethyddiaeth a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol.
26. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud â'r Ardoll Cig Coch (Rhan 8), y diwygiadau i Atodlen 3 (Darpariaeth o ran Cymru) a'r diwygiadau i Ran 10 (Darpariaethau Terfynol) oherwydd eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru oherwydd fel y mae'n ymwneud ag amaethyddiaeth ac nad ydynt yn ymwneud â materion a gadwyd yn ôl.
27. Nodir bod mân gamgymeriad drafftio yn y Memorandwm a osodwyd ar 4 Hydref. Roedd yn dweud bod darpariaethau penodol yn ymwneud â Chymru ac yn gymwys o ran Cymru (cyfeirir at baragraff 18 o'r Memorandwm gwreiddiol hwnnw). Mae'r darpariaethau perthnasol yn ymwneud â Chymru a Lloegr (ac maent yn gymwys i Gymru, fel y nodwyd yn gywir).

### **Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth**

28. Nodir yn yr Atodiad restr wedi ei chydgrynhoi o bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth a roddir i Weinidogion Cymru, ac sydd wedi ei diweddarau ers y Memorandwm a osodwyd ar 4 Hydref er mwyn ystyried y diwygiadau a wnaed yn ystod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin ac a ddisgrifir yn y Memorandwm hwn. Mae 'gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol' a 'gweithdrefn penderfyniad negyddol' yn cael eu diffinio yng Nghymal 32(7)(b) ac (8)(b) o'r Bil, yn y drefn honno, oherwydd bod y termau hynny'n gymwys i is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Bil.

### **Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Amaethyddiaeth**

29. Fel y nodwyd yn y Memorandwm cyntaf, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen deddfwriaeth ar mwyn darparu sylfaen gyfreithiol ar gyfer cymorth i ffermwyr yn y dyfodol, ar ôl Brexit, wrth inni ymadael yn raddol â'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Drwy gynnwys darpariaethau yn awr ym Mil Amaethyddiaeth y DU, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cefnogi ffermwyr yng Nghymru, a byddant yn gallu gwneud yr hyn a fydd orau i Gymru.

30. Mae pŵer newydd wedi'i gynnwys yn y Bil hefyd i aiddosbarthu'r ardoll cig coch er mwyn datrys yr anghysonderau sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae'r Bil Amaethyddiaeth yn gyfle delfrydol i gael y pwerau angenrheidiol i gyflwyno cynllun priodol a fydd yn cywiro'r anghydbwysedd hwn.

### **Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd**

31. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon â'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Weinidogion Llywodraeth y DU yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin mewn perthynas â'r Ardoll Cig Coch (Rhan 8), y gwelliannau i Atodlen 3 (Darpariaeth o ran Cymru) a'r gwelliant i Ran 10 (Darpariaethau Terfynol). Mae hefyd yn fodlon â'r darpariaethau sy'n ymwneud â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth o gofio'r cytundeb a sicrhawyd gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ar arfer y pŵer hwnnw i wneud rheoliadau. Mae'n debygol y bydd rhagor o newidiadau'n cael eu gwneud i'r Bil yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin, ac wrth iddo fynd ar ei daith drwy Dŷ'r Arglwyddi, ac yn eu plith bydd newidiadau er mwyn ymateb i bwyntiau a godir wrth i Bwyllgor y Cynulliad Cenedlaethol graffu ar y Bil. Mewn achos o'r fath, bydd Memoranda pellach yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad fel y bo'n briodol. Gwneir argymhelliad terfynol ynglŷn â chydysniad y Cynulliad Cenedlaethol unwaith y bydd yr holl welliannau wedi cael eu gwneud i'r Bil.

### **Goblygiadau ariannol**

32. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru nac i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ganlyniad i'r ffaith bod y pwerau hyn yn cael eu cyflwyno yn y Bil hwn.

### **Casgliad**

33. Mae'r memorandwm atodol hwn yn disgrifio'r newidiadau perthnasol a wnaed i'r Bil ers iddo gael ei gyflwyno ac y mae angen cydsyniad y Cynulliad ar eu cyfer. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil fel y'i drafftwyd. Dylid nodi, er hynny, nad oes modd argymhell yn bendant y dylai'r Cynulliad roi cydsyniad i'r Bil nes y bydd yn nes at ddiwedd ei daith drwy Dŷ'r Arglwyddi, oherwydd ei bod yn bosibl y bydd rhagor o welliannau. Os bydd rhagor o welliannau a fydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, bydd rhagor o Femoranda Cydsyniad Atodol yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad fel y bo'n briodol, a bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud argymhelliad ynglŷn â chydysniad y Cynulliad ar yr adeg briodol.

**Lesley Griffiths AC**

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Mawrth 2019**

## Atodiad

### MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL: Y BIL AMAETHYDDIAETH – RHESTR WEDI'I CHYDGRYNHOI O DDARPARIAETHAU AC YNDDYNT BWERAU I WEINIDOGION CYMRU WNEUD IS-DEDDFWRIAETH FEL Y'U DIWYGIWYD YN YSTOD Y CYFNOD PWYLLGOR YN NHŶ'R CYFFREDIN

Paragraff yn Atodlen 3	Disgrifiad o'r Pŵer	Y weithdrefn ddeddfwriaethol
2(7)	Pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ar gyfer ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru neu berson arall gyhoeddi gwybodaeth benodedig ynghylch cymorth ariannol a roddwyd o dan Baragraff 1 o Atodlen 3, neu i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â hynny.	Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol
3(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ar gyfer gwirio, gorfodi a monitro cydymffurfiaeth pan fo cymorth ariannol i'w roi, neu wedi ei roi, o dan Baragraff 1 o Atodlen 3, neu i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â hynny.	Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol
5(2)	Pwerau i Weinidogion Cymru estyn drwy reoliadau y cyfnod pontio amaethyddol i Gymru a nodir ym Mharagraff 5(1) o Atodlen 3.	Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol
6(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru ddiwygio deddfwriaeth sy'n rheoli cynllun y taliad sylfaenol.	Y weithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod adran 32(5) yn gymwys. Defnyddir y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol mewn achosion o'r fath).
7(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ar gyfer, neu mewn cysylltiad â lleihau hyd at 15% y terfynau uchaf ar gyfer taliadau uniongyrchol cenedlaethol a net yng Nghymru a fyddai, fel arall, yn gymwys yn 2020.	Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol
8(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru addasu drwy reoliadau ddeddfwriaeth sy'n rheoli cynllun y taliad sylfaenol er mwyn gwneud darpariaeth ar gyfer, neu mewn cysylltiad â sicrhau bod	Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol



	cynllun y taliad sylfaenol yn parhau i weithredu mewn perthynas â Chymru am un neu fwy o flynyddoedd ar ôl 2020 (yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan baragraff 9).	
9(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ar gyfer, neu mewn cysylltiad â, y naill neu'r llall, neu'r ddau, o'r canlynol: dirwyn i ben yn raddol daliadau uniongyrchol o dan gynllun y taliad sylfaenol o ran Cymru dros y cyfnod pontio amaethyddol cyfan i Gymru, neu ran o'r cyfnod hwnnw, neu derfynu taliadau uniongyrchol o dan y cynllun hwnnw o ran Chymru, ac yn hytrach gwneud taliadau datgysylltiedig o ran Cymru mewn cysylltiad â'r cyfnod pontio amaethyddol cyfan ar gyfer Cymru, neu ran o'r cyfnod hwnnw.	Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol
11(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru addasu drwy reoliadau ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud ag ariannu, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin a'r is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth honno.	Y weithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod adran 32(5) yn gymwys. Defnyddir y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol mewn achosion o'r fath)
12(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru addasu drwy reoliadau ddeddfwriaeth uniongyrchol y UE a ddargedwir sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig ac is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth honno.	Y weithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod adran 32(5) yn gymwys. Defnyddir y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol mewn achosion o'r fath)
13(2)	Pwerau i Weinidogion Cymru drwy reoliadau ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n rhan o gadwyn gyflenwi bwyd amaeth, neu sydd â chysylltiad agos â chadwyn gyflenwi o'r fath, ddarparu gwybodaeth am faterion sy'n gysylltiedig ag unrhyw un neu ragor o weithgareddau'r person sy'n gysylltiedig â'r	Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol

	gadwyn gyflenwi, i'r graddau y cyflawnir y gweithgareddau hynny yng Nghymru.	
17(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ar gyfer gorfodi gofyniad a osodir o dan baragraff 13(1) neu (2) o Atodlen 3 (cadwyni cyflenwi bwyd amaeth: gofyniad i ddarparu gwybodaeth).	Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol
20 (1)	Pwerau i Weinidogion Cymru addasu drwy reoliadau ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud ag ymyrryd yn y farchnad gyhoeddus neu gymorth ar gyfer storio preifat at ddibenion newid y ffordd y mae darpariaethau'r ddeddfwriaeth honno yn gweithredu, i'r graddau y maent yn cael effaith o ran Cymru mewn cysylltiad ag amodau eithriadol yn y farchnad sy'n destun datganiad o dan baragraff 18 o Atodlen 3 (datganiad sy'n ymwneud ag amodau eithriadol yn y farchnad).	Y weithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod adran 32(5) yn gymwys. Defnyddir y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol mewn achosion o'r fath)
20(2)	Pwerau i Weinidogion Cymru addasu drwy reoliadau ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud ag ymyrryd yn y farchnad gyhoeddus neu gymorth ar gyfer storio preifat at ddibenion penodedig.	Y weithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod adran 32(5) yn gymwys. Defnyddir y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol mewn achosion o'r fath)
21(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru, mewn perthynas â chynhyrchion sy'n dod o fewn sector penodedig ac a farchnetir yng Nghymru, wneud darpariaethau drwy reoliadau ynglŷn â'r safonau y mae'n rhaid i'r cynhyrchion hynny gydymffurfio â hwy.	Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol
21(3)	Pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynglŷn â chategoreiddio, adnabod a chyflwyno carcassau buchol, carcassau moch a charcassau defaid gan ladd-dai yng Nghymru.	Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol
22(2)	Pwerau i Weinidogion Cymru ddiwygio drwy reoliadau y rhestr o sectorau amaethyddol ym mharagraff 22(1) o Atodlen 3 i ychwanegu neu ddileu sector, ac i nodi cynhyrchion sy'n dod o fewn pob sector, neu fel arall i roi manylion pellach am y sectorau.	Y weithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod adran 32(5) yn gymwys. Defnyddir y weithdrefn

		penderyniad cadarnhaol mewn achosion o'r fath)
29	Pwerau i Weinidogion Cymru (gan weithredu ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol a/neu Weinidogion yr Alban) wneud cynllun i ddarparu bod symiau'r ardoll cig coch a gesglir gan y corff ardollau ar gyfer un wlad ym Mhrydain Fawr yn cael eu talu i'r corff ardollau ar gyfer gwlad arall o'r fath.	Dim gweithdrefn